

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Jane Smellie Opticians, Ysbyty /
Clinig Annibynnol

Dyddiad yr arolygiad: 19 Mawrth 2024

Dyddiad cyhoeddi: 19 Mehefin 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83625-219-1

© Hawlfraint y Goron 2024

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	11
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	14
4.	Y camau nesaf	16
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	17
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	18
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	19

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Jane Smellie Opticians ar 19 Mawrth 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac un adolygydd cymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu gofal offthalmolegol sy'n cynnwys asesiadau cyn ac ar ôl cataract, rheoli glawcoma a thriniaeth i gleifion 18 oed a throsgod. Caiff y gwasanaeth ei ddarparu gan un offthalmolegydd sy'n ymweld â'r clinig ar hyn o bryd ac mae'n bresennol yno oddeutu un bore bob pythefnos.

Roedd yr arolygiad yn canolbwyntio ar yr agwedd gofrestredig ar y gwasanaeth yn unig ac nid oedd yn cynnwys gwasanaeth yr optegydd a oedd wedi'i leoli yn yr un adeilad.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o naw holiadur. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod gan Jane Smellie Opticians drefniadau ar waith i hybu diogelwch a llesiant y cleifion sy'n ymweld â'r clinig.

Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol am eu profiadau o ddefnyddio'r gwasanaethau a ddarperir yn y clinig.

Gwelsom fod y staff yn y clinig yn trin y cleifion yn gwrtais ac â pharch.

Roedd trefniadau ar waith i hyrwyddo a diogelu preifatrwydd ac urddas cleifion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Darparu mwy o wybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr amgylchedd yn lân ac yn daclus ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y tîm o staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion ac roedd trefniadau ar waith i hyrwyddo diogelwch a llesiant y cleifion, ymwelwyr a'r staff.

Roedd y clinig yn lân ac yn daclus, ac roedd trefniadau ar waith i leihau achosion o groes-heintio.

Ychydig iawn o feddyginiaeth oedd yn cael ei chadw yn yr adeilad.

Roedd prosesau effeithiol ar waith i wirio'r cyfarpar a ddefnyddir ac roedd trefniadau cadarn ar waith i sicrhau bod y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd briodol a diogel.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid cynnal asesiadau o alluedd meddyliol a'u cofnodi yn nodiadau'r cleifion
- Dylid cofnodi alergeddau a sensitifrwyddau yn nodiadau'r cleifion
- Rhaid i nodiadau cleifion sydd wedi'u hysgrifennu â llaw fod yn ddarllenadwy
- Dylid cynnwys rhif cyswllt ar gyfer y tîm diogelu lleol yn y polisi diogelu

- Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried prynu pecyn adfywio sy'n cynnwys o leiaf ocsigen ac adrenalín
- Dylid cadw'r allwedd er mwyn dat-gloi'r peiriant laser yn ddiogel ac i ffwrdd o'r peiriant a dylid gosod clo ar ddrws yr ystafell laser.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Polisiau a gweithdrefnau cynhwysfawr.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod trefniadau rheoli ac arwain da ar waith yn y clinig.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r staff gael hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddementia
- Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau'n unol â'r rheoliadau drwy lunio adroddiad yn dilyn ymweliadau â'r gwasanaeth
- Rhaid diweddarau'r datganiad o ddiben i adlewyrchu'r ffaith mai dim ond un offthalmolegydd sy'n gweithio yn y clinig ar hyn o bryd
- Dylid llunio polisi ar reoli digwyddiadau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trosolwg gan y rheolwyr.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron papur ac ar-lein i gasglu barn ac adborth gan gleifion a gofalwyr. Cwblhawyd cyfanswm o naw holiadur. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Staff cyfeillgar ac effeithlon iawn. Cafodd fy nisgwyliadau eu bodloni.”

“Gofal ac apwyntiadau dilynol rheolaidd rhagorol gyda Humphries a phrofion a sgan Tomograffeg Cydlyniant Optegol (OCT) a gwiriadau bob chwe mis gyda (yr Offthalmolegydd).”

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd gwybodaeth ar gael i'r cleifion i'w helpu i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

Urddas a pharch

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod y staff bob amser yn gwrtais ac yn gwrandao arnynt. Gwnaeth y cleifion hefyd ddweud wrthym fod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ddarparu eu gofal a'u triniaeth.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion a gwelsom y staff yn ymgysylltu â'r cleifion mewn modd parchus a phroffesiynol, a hynny wrth sgwrsio ar y ffôn ac wyneb yn wyneb.

Cawsom wybod bod drysau'r ystafelloedd ymgynghori a'r ystafelloedd trin yn cael eu cadw ar gau bob amser pan fyddant yn cael eu defnyddio.

Gwelsom staff y dderbynfa yn croesawu'r cleifion mewn modd cyfeillgar a chwrtais. Dywedodd y cleifion a wnaeth sylwadau wrthym fod y staff bob amser yn gwrtais ac yn garedig wrth roi gofal a thriniaeth.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Fel y disgrifiwyd yn gynharach, roedd rhywfaint o ddeunyddiau hybu iechyd ar gael.

Roedd y personau cofrestredig wedi llunio Datganiad o Ddiben fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Roedd y datganiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am y clinig ynghyd â

gwybodaeth am y gwasanaethau a gynigir a sut y gellid cael y gwasanaethau hynny. Fodd bynnag, roedd angen diweddarau'r Datganiad o Ddiben hwn i adlewyrchu'r ffaith mai dim ond un offthalmolegydd sy'n gweithio yn y clinig ar hyn o bryd.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig ddiweddarau'r Datganiad o Ddiben i adlewyrchu'r ffaith mai dim ond un offthalmolegydd sy'n gweithio yn y clinig ar hyn o bryd.

Roedd polisi ysgrifenedig cyfredol ar gael ynghylch cael cydsyniad dilys gan gleifion. Cadarnhaodd archwiliad o sampl o nodiadau'r cleifion fod clinigwyr yn gwneud cofnod yn y nodiadau meddygol pan oedd y cleifion yn cydsynio ar lafar i archwiliad neu driniaeth. Fodd bynnag, nid oedd asesiadau o alluedd meddyliol yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod asesiadau o alluedd meddyliol yn cael eu cynnal a'u cofnodi yn nodiadau'r cleifion.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth am eu triniaeth, gan gynnwys gwybodaeth am y gwahanol driniaethau oedd ar gael ac unrhyw risgiau cysylltiedig, a gwybodaeth am y costau dan sylw.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd taflenni am y gwasanaethau a gynigir yn y clinig ar gael yn yr ystafell aros a'r ystafelloedd trin. Fodd bynnag, yn Saesneg yn unig roedd y mwyafrif o'r wybodaeth hon.

Dylai'r darparwr cofrestredig ddarparu rhagor o wybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd y trefniadau ar gyfer darparu gofal a thriniaeth wedi'u nodi'n glir yn y Datganiad o Ddiben.

Disgrifiwyd y trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cynnal asesiadau o'r cleifion er mwyn nodi eu hanghenion unigol o ran gofal a thriniaeth. Gwelsom dystiolaeth fod y clinig yn monitro atgyfeiriadau er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ac nad oedd cleifion yn cael eu gweld gan feddygon ymgynghorol nac yn cael eu trin yn ddiangen. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd alergeddau a sensitifrwyddau y cleifion yn cael eu cofnodi yn eu nodiadau meddygol yn rheolaidd.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod alergeddau a sensitifrwyddau y cleifion yn cael eu cofnodi'n glir yn eu nodiadau.

Roedd gwybodaeth am driniaethau yn cael ei chofnodi yn ffeiliau'r cleifion unigol. Fodd bynnag, nodwyd gennym ei bod yn anodd darllen y cofnodion a oedd wedi'u hysgrifennu â llaw yn nodiadau'r cleifion.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod nodiadau'r cleifion sydd wedi'u hysgrifennu â llaw yn ddarllenadwy.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Mae'r Datganiad o Ddiben yn nodi'n glir bod gwasanaethau'n cael eu darparu gan roi sylw dyledus i hawliau'r cleifion.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod wedi cael ei drin ag urddas a pharch gan staff y clinig, a'i fod yn teimlo eu bod yn gwranddo arno.

Roedd mynediad da i'r clinig drwy'r brif fynedfa. Roedd yr holl gyfleusterau, gan gynnwys desg y dderbynfa, yr ystafell aros, toiledau'r cleifion a'r ystafelloedd ymgynghori ar y llawr gwaelod.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Dywedwyd wrthym fod gan yr offthalmolegydd system ar waith i ofyn am farn y cleifion ar y gwasanaeth y gwnaethant ei dderbyn.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Yn ôl yr olwg, roedd amgylchedd y clinig yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac mewn cyflwr da.

Roedd asesiadau risg cyffredinol ac asesiadau risg mwy penodol yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Gwelsom nad oedd unrhyw beryglon amlwg yn unrhyw ardal a bod yr allanfeydd tân a'r llwybrau dianc wedi'u nodi'n glir.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y clinig. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno fod yr amgylchedd yn lân, a bod mesurau atal a rheoli heintiau amlwg ar waith yno.

Roedd polisiâu a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael er mwyn helpu i roi arweiniad i'r staff ar atal a rheoli heintiau ac roedd y staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar hyn.

Gwelsom fod y clinig yn lân ac yn daclus. Gwelsom hefyd fod cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff er mwyn helpu i atal achosion o groes-heintio. Roedd cyfleusterau golchi dwylo ar gael.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd polisi ysgrifenedig ar gael ar y broses o reoli meddyginiaethau.

Gwelsom fod meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel, ar y cyfan. Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw feddyginiaeth sy'n sensitif i dymheredd yn cael ei storio yn yr adeilad. Fodd bynnag, pe bai meddyginiaeth o'r fath yn cael ei storio yn yr adeilad yn y dyfodol, rhaid i oergell storio meddyginiaeth gymeradwy gael ei darparu a bydd yn rhaid monitro tymheredd yr oergell gan ddefnyddio thermometr isafswm/uchafswm.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd y staff a oedd yn gweithio yn y clinig wedi cwblhau hyfforddiant diogelu i lefel a oedd yn briodol i'w rolau.

Roedd polisi a gweithdrefn ysgrifenedig ar gael i roi arweiniad i'r staff ar y camau i'w cymryd pe byddent yn amau bod plant neu oedolion sy'n agored i niwed neu'n wynebu risg yn cael eu cam-drin. Fodd bynnag, nid oedd y rhain yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer y bwrdd iechyd a thimau diogelu'r awdurdod lleol.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y polisi a'r weithdrefn diogelu yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer timau diogelu'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd amrywiaeth o gyfarpar ar gael yn y clinig er mwyn hwyluso'r broses o ddarparu gofal a thriniaethau i'r cleifion. Gwelsom dystiolaeth fod y cyfarpar hwn yn cael ei brofi/calibradu yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio ac yn rhoi mesuriadau cywir.

Roedd arwyddion i'w gweld ar y drws a oedd yn arwain i mewn i'r ystafell lle roedd y peiriant laser wedi'i leoli. Fodd bynnag, nid oedd clo ar y drws hwn er mwyn atal mynediad heb awdurdod pan oedd y laser yn cael ei ddefnyddio. At hynny, roedd yr allwedd a ddefnyddir i weithredu'r laser yn cael ei chadw gyda'r peiriant laser.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig osod clo ar ddrws yr ystafell laser er mwyn atal mynediad heb awdurdod pan fydd y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio a sicrhau y caiff yr allwedd a ddefnyddir i weithredu'r laser ei chadw'n ddiogel ac i ffwrdd o'r peiriant.

Ni chaiff unrhyw gyfarpar na chyffuriau i'w defnyddio mewn argyfwng yn ymwneud â chlaf, er enghraifft llewygu, eu storio ar y safle.

Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried prynu pecyn adfywio sy'n cynnwys o leiaf ocsigen ac adrenalin.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Wrth drafod â'r staff ac o edrych ar ddogfennaeth gofal y cleifion, gwelsom fod y cleifion yn cael gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael i gefnogi'r ffordd roedd y clinig yn cael ei weithredu a chawsom wybod eu bod yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd systemau addas ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Yn unol â'r rheoliadau, mae'r darparwr cofrestredig yn cynnal archwiliadau ac yn asesu'r risgiau mewn perthynas ag iechyd a diogelwch yn rheolaidd.

Rheoli cofnodion

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a chynnal cyfrinachedd.

Drwy archwilio'r cofnodion hyfforddi, gwnaethom gadarnhau fod y staff wedi cael hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth.

Roedd systemau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol am y cleifion a'r staff yn cael ei chadw'n ddiogel.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roeddem yn fodlon ar drefniadau'r rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol ar gyfer goruchwyllo'r gwasanaeth.

Roedd strwythur rheoli cadarn ar waith a disgrifiwyd llinellau adrodd clir. Mae'r rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol yn gweithio yn y clinig ac yn monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau ar waith er mwyn sicrhau ffocws penodol ar wella'r gwasanaethau yn barhaus. Cyflawnwyd hyn yn rhannol drwy raglen archwilio a strwythur rheoli. Roedd aelodau o'r staff yn cwrdd yn rheolaidd i drafod y ffordd y caiff gofal cleifion ei ddarparu ac unrhyw faterion a oedd yn codi pryder.

Dywedodd y staff wrthym fod prosesau da, anffurfiol ar waith i oruchwyllo a chefnogi'r staff o ddydd i ddydd a'u bod yn teimlo bod eu rheolwr a'u cydweithwyr yn eu cefnogi yn eu gwaith.

Mae'r unigolyn cyfrifol yn gweithio yn y clinig yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw'n llunio adroddiad ysgrifenedig ar ôl ymweld â'r clinig fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau rheoliadol drwy lunio adroddiad yn dilyn ymweliadau â'r gwasanaeth.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gweithdrefn gwyno ysgrifenedig ar gael, ac roedd manylion yn nodi sut y gallai cleifion wneud cwyn wedi'u cynnwys yn y Datganiad o Ddiben ac ar y wefan. Yn unol â'r rheoliadau, roedd manylion cyswllt AGIC wedi'u cynnwys hefyd.

Disgrifiwyd y trefniadau ar gyfer adolygu digwyddiadau o bwys ac ar gyfer rhannu'r gwersi a ddysgwyd ohonynt i hyrwyddo diogelwch a llesiant cleifion. Fodd bynnag, nid oedd polisi ysgrifenedig ar waith ar reoli digwyddiadau.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig lunio polisi ar reoli digwyddiadau.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Roedd gwasanaethau meddygol/ymgyngori yn cael eu darparu gan offthalmolegydd a oedd yn ymweld â'r clinig, o dan drefniadau Breintiau Ymarfer ffurfiol, nad oedd wedi'i gyflogi'n uniongyrchol gan y clinig.

Roedd y wybodaeth yn y ffeiliau staff a arolygwyd yn dangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant arall a oedd yn berthnasol i'w rolau. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd y staff wedi cael hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o ddementia.

Dylai'r darparwr cofrestredig drefnu i'r staff gael hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o ddementia.

Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos mai'r offthalmolegydd oedd yr unig un ag awdurdod i ddefnyddio'r peiriant laser a'i fod wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant gan y gwneuthurwr ar sut i ddefnyddio'r peiriant laser.

Gwelsom fod yr offthalmolegydd wedi cael arfarniad ffurfiol o'i berfformiad yn y gwaith a'i fod wedi cael ei ddogfennu.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd arferion a gweithdrefnau recriwtio'r gweithlu yn cael eu dilyn yn unol â rheoliadau a safonau.

Gwnaethom edrych ar gofnodion y staff a gwelsom fod y person cofrestredig wedi dilyn y gweithdrefnau priodol ac wedi cynnal gwiriadau recriwtio perthnasol cyn i staff ddechrau gweithio yn y clinig.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Jane Smellie Opticians

Dyddiad yr arolygiad: 19 Mawrth 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Jane Smellie Opticians

Dyddiad yr arolygiad: 19 Mawrth 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r darparwr cofrestredig ddiweddarau'r Datganiad o Ddiben i adlewyrchu'r ffaith mai dim ond un offthalmolegydd sy'n gweithio yn y clinig ar hyn o bryd.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 6. Safon 1. Fframwaith Llywodraethu ac Atebolrwydd	Mae'r datganiad o ddiben wedi cael ei ddiweddarau - gweler y copi a gyflwynwyd	Helen Williams	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod asesiadau o alluedd meddyliol yn cael eu cynnal a'u cofnodi yn nodiadau'r cleifion.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 17. Safon 2.	Bydd yr offthalmolegydd yn cofnodi'r rhain yn y nodiadau, ac yn eu dangos i mi.	Helen Williams	Wedi'i gwblhau

	Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol			
Dylai'r darparwr cofrestredig ddarparu rhagor o wybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.	<p>Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011</p> <p>Rheoliad 18. (1) (b)</p> <p>Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru</p> <p>Safon 18. Cyfathrebu'n Effeithiol</p>	<p>Rydym wedi llunio taflenni i gleifion yn Gymraeg ar gyfer y meysydd canlynol:</p> <p>Cataractau</p> <p>Glawcoma</p>	Helen Williams	Aros iddynt gyrraedd
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod alergeddau a sensitifrwyddau y cleifion yn cael eu cofnodi'n glir yn eu nodiadau.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 15. (1)	Yr offthalmolegydd i'w cynnwys yn y nodiadau, a'u dangos i Helen.	Helen Williams	Wedi'i gwblhau

	Safon 8. Cynllunio a Darparu Gofal	Nodi Dim Alergeddau Hysbys		
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod nodiadau'r cleifion sydd wedi'u hysgrifennu â llaw yn ddarllenadwy.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 23. Safon 20. Rheoli Cofnodion	Yn dilyn trafodaeth â'r offthalmolegydd, byddwn yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Caiff llythyrau gan y clinig eu hanfon atom ni a'r cleifion yn dilyn ymgynghoriadau.	Helen Williams	Gwaith monitro parhaus
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y polisi a'r weithdrefn diogelu yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer timau diogelu'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 16. (1) Safon 11. Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed	Mae'r polisi wedi'i ddiweddarau i gynnwys y manylion. Mae'r polisi wedi'i lanlwytho.	Helen Williams	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r darparwr cofrestredig osod clo ar ddrws yr ystafell laser er mwyn atal mynediad heb awdurdod pan fydd y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio a sicrhau y caiff yr	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 15.	Rydym wedi trefnu bod saer cloeon yn dod i'r clinig i osod clo ar ddrws yr ystafell laser.	Helen Williams	20 Mai 2024 (y clo)

<p>allwedd a ddefnyddir i weithredu'r laser ei chadw'n ddiogel ac i ffwrdd o'r peiriant.</p>	<p>Safon 16. Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol</p>	<p>Mae allwedd y peiriant laser yn cael ei chadw'n ddiogel yn y practis os nad yw'n cael ei ddefnyddio.</p>		
<p>Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried prynu pecyn adfywio sy'n cynnwys o leiaf ocsigen ac adrenalin.</p>	<p>Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru</p> <p>Safon 22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch</p>	<p>Bydd Jane a minnau yn trafod y risg ac yn ystyried prynu pecyn adfywio</p>	<p>Helen Williams</p>	<p>Parhaus.</p>
<p>Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau rheoliadol drwy lunio adroddiad yn dilyn ymweliadau â'r gwasanaeth.</p>	<p>Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011</p> <p>Rheoliad 28 (4) (c)</p>	<p>Mae Jane Smellie yn bresennol yn y practis yn rheolaidd ac yn cynnal clinigau ac yn cysylltu â'r Offthalmolegydd yn rheolaidd.</p> <p>Mae copi o adroddiad Ebrill 2024 wedi cael ei ddarparu.</p>	<p>Helen Williams</p>	<p>Parhaus</p>

	<p>Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru</p> <p>Safon 6. Cymryd rhan mewn Gweithgareddau Gwella Ansawdd</p>			
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig lunio polisi ar reoli digwyddiadau.</p>	<p>Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011</p> <p>Rheoliad 19.</p> <p>Safon 23. Delio â Phryderon a Rheoli Digwyddiadau</p>	<p>Mae Rheoli digwyddiadau wedi'i gynnwys yn ein polisi/datganiad cymorth cyntaf, ac rydym wedi lanlwytho'r dystiolaeth.</p>	<p>Helen Williams</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

<p>Dylai'r darparwr cofrestredig drefnu i'r staff gael hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o ddementia.</p>	<p>Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011</p> <p>Rheoliad 20. (2)</p> <p>Safon 25. Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol</p>	<p>Mae'r ymarferydd golwg gwan wedi cwblhau'r cwrs ar Ddementia.</p> <p>Mae tystysgrifau ar gael i'w gweld.</p>	<p>Helen Williams</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
-------------------------------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-----------------------	-----------------------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Helen Williams

Teitl swydd: Rheolwr

Dyddiad: 13 Mai 2024